ATODLEN 2

GWYBODAETH A DOGFENNAU SY'N OFYNNOL
AR GYFER COFRESTRU O DAN RAN 2 O'R MESUR

# RHAN 2

## Gwybodaeth a dogfennau sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru: darparydd gofal dydd

### Gwybodaeth am y ceisydd: sefydliad

**23.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r ceisydd yn sefydliad.

(2) Enw, cyfeiriad a rhif teleffon y ceisydd.

(3) Yn achos ceisydd sefydliadol sy'n gwmni, ei swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r cwmni, ei rif cofrestru ac, yn achos ceisydd sefydliadol sy'n elusen gofrestredig, ei rif elusen gofrestredig.

(4) Os yw'r sefydliad yn is-gwmni cwmni daliannol, enw a chyfeiriad y cwmni daliannol, ei swyddfa gofrestredig neu'i brif swyddfa ac unrhyw is-gwmni arall y cwmni daliannol hwnnw.

(5) Yn yr Atodlen hon rhaid dehongli'r geiriau “cwmni daliannol” (“*holding company*”) ac “is–gwmni” (“*subsidiary*”) yn unol â'r dehongliad o “subsidiary” a “holding company” yn adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006(**1**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 23 mewn grym ar 1.4.2011, gweler **rhl. 1(1)**

(**1**) 2006 p.46.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, Paragraff 23.